## Beth sy'n digwydd mewn Cynhadledd Achos?

Yn y gynhadledd achos:


- Gwybodaeth am yr hyn mae asiantaethau wedi gwneud hyn yn hyn i'ch cadw'n ddiogel.
- Rhennir gwybodaeth am unrhyw risgiau i'ch iechyd neu ddiogelwch.
- Ystyrir eich safbwyntiau a safbwyntiau eich ffrindiau a theulu.
- Gwneir penderfyniad o ran a oes angen cynllun parhaus er mwyn eich cadw'n ddiogel.

## Os hoffech ragor o wybodaeth:

Neu, os ydych eisiau rhywun arall yn hytrach na'ch rheolwr gofal neu weithiwr cymdeithasol i'ch cefnogi neu gynrychioli chi yn y gynhadledd achos, cysylltwch â ni:

north wales Safeguarding BOARD

# BETH I'W DDISGWYL MEWN CYNHADLEDD ACHOS



Gwybodaeth ar gyfer Oedolion, eu Gofalwyr, Teulu ac Eiriolwyr.



## Beth i'w ddisgwyl mewn Cynhadledd Achos Oedolyn

Mae'r broses ddiogelu yn dechrau pan mae pryderon difrifol nad ydych yn ddiogel neu bod rhywun yn achosi niwed i chi.

Cynhadledd achos amddiffyn oedolyn yw cyfarfod a drefnir yn y pwyntiau canlynol o'r broses ddiogelu.

- Os yw'r oedolyn yn parhau mewn perygl ac mae angen gweithredu hirdymor i'w diogelu rhag camdriniaeth ac esgeulustod (Penderfyniad 3) a/neu
- mae proses ymchwilio'r achos wedi ei chwblhau.

## Alla i fynychu'r Gynhadledd Achos?

Bydd yr Awdurdod Lleol yn ceisio cynnal cynhadledd achos mewn lleoliad lle gallwch fynychu'n hawdd. Mae eich safbwyntiau yn bwysig iawn, a byddwch yn derbyn cymorth i fynychu os yw'n bosibl.

Os nad allwch fynd i'r cyfarfod, bydd eich gweithiwr cymdeithasol, neu weithiwr arall sy'n eich hadnabod yn dda yn siarad â chi, yn canfod eich safbwyntiau, ac yn datgan hyn i'r bobl yn y gynhadledd ar eich rhan.

Gallwch hefyd ofyn am eiriolwr annibynnol (cynrychiolydd) nad ydynt yn cael eu cyflogi gennym ni neu'r GOG er mwyn eich helpu chi i roi eich safbwyntiau yn y gynhadledd achos. Gall eiriolwr annibynnol hefyd fynychu'r gynhadledd i chi er mwyn sicrhau bod eich safbwyntiau yn cael eu clywed. Gall y bobl canlynol hefyd fod yn y gynhadledd:

- Y Cydlynydd Arweiniol, a fydd yn cadeirio'r cyfarfod.
- Ffrindiau neu aelodau'r teulu, dim ond os ydych eisiau nhw yno.
- Eich Gweithiwr Cymdeithasol / Rheolwr Gofal, y cyfeirir atynt fel yr Ymarferydd Arweiniol.
- Rhywun i ddehongli i chi a sicrhau bod unrhyw adnoddau i gefnogi cyfathrebu effeithiol ar gael i chi os oes gennych anghenion cyfathrebu.
- Eich Meddyg, Nyrs Gymunedol neu weithiwr iechyd proffesiynol arall.
- Swyddog yr Heddlu
- Swyddog Tai
- Rhywun megis Swyddog Iechyd Meddwl neu Gyfreithiwr o'r Awdurdod Lleol a Gweinyddu a all ddweud wrth y gynhadledd achos sut all y gyfraith eich diogelu chi.

## Pam cynnal Cynhadledd Achos?

Mae angen cynhadledd achos er mwyn:

- Rhoi gwybod i chi beth ddigwyddodd yn eich achos.
- Darganfod os ydych yn parhau i fod mewn perygl o niwed.
- Cytuno ar yr hyn sydd angen ei wneud i barhau i'ch diogelu chi rhag niwed.
- Rhoi diweddariad i chi os yw'r ymchwiliad i'r pryderon diogelu yn parhau i ddigwydd.